

Ysgol I.D. Hooson  
Heol Caradog  
Rhosllannerchrugog  
LL14 2DX  
Ffôn: 01978 832950  
Ffacs: 01978 832955  
e-bost: [mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk)



## YSGOL I.D. HOOSON

14.09.21

Annwyl Rieni/Ofalwyr

**CYCHWYN Y DIWRNOD YSGOL 8.55** - Trefniadau bore a phrydlondeb- Hoffwn eich atgoffa o bwysigrwydd eich plentyn yn cyrraedd i'r ysgol ar amser. **Mae cloch y bore yn canu am 8.55, ac felly disgwylir i'r disgyblion(meithrin 9.00) fod yn yr ysgol erbyn yr amser yma** er mwyn cael ei harwain i'r dosbarth gyda'i dosbarth ar gyfer cychwyn gweithgareddau y bore. Nid ydym am i unrhyw blentyn gollu allan, ar unrhyw ran o wersi'r dydd, ac felly ein nod yw i bob plentyn gyrraedd yr ysgol mewn da bryd yn y bore fel y gall ef/hi fod yn rhan o'r gwersi o gychwyn y bore heb iddo ef/hi orfod cyrraedd gwers yn hwyr, colli gwybodaeth bwysig a tharfu ar ac amharu ar rediad gwers.

Cofiwch hefyd i gysylltu efo'r ysgol cyn 9.30 os yw eich plentyn yn absennol, gan gyflwyno'r rheswm dros yr absenoldeb. Diolch

**Gwisgo gorchudd wyneb** - Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn annog i bob rhiant wisgo gorchudd wyneb wrth ddod a chasglu plant o'r ysgol. Er diogelwch pawb a fyddech cystal a gwneud pob ymdrech posib i lynu at hyn. Mae Covid-19 yn parhau i fod gyda ni, ac felly mae'r canllawiau hyn gan y Llywodraeth yn rhan o'n hymdrechion fel ysgol i wneud popeth posib i leihau y risg o'r firws yn ymledu. Diolch

**Diwrnod Owain Glyndŵr** - Ar ddydd Iau Medi 23ain, bydd y plant yn dathlu diwrnod Owain Glyndŵr, gan gofio am Owain Glyndŵr fel y Cymro olaf i fod yn Dywysog Cymru. Gall y plant wisgo dillad coch ar y dydd pe dymunir.

**Gŵyl Banc ychwanegol** - Yn rhan o ddatliadau Jiwibili Blatinwm y Frenhines, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu nodi'r achlysur drwy ddiwrnod Gŵyl y Banc ychwanegol ar gyfer y flwyddyn hon. Gan fod hyblygrwydd gan ysgolion o ran pa bryd y gellid cymryd y diwrnod ychwanegol hwn, dewiswyd dydd Llun Chwefror 28ain ar gyfer hyn. Bydd yr ysgol felly ar gau ar y diwrnod yma, i ddisgyblion a staff.

Unwaith eto hoffwn eich atgoffa i gofio cysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth am unrhyw ymholiad ynglŷn â'r gwaith, neu gyda'r swyddfa [mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk) am unrhyw ymholiad cyffredinol.

Yn ddiffuant,

Rhodri Jones  
Pennaeth/Headteacher